OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2019 Rhif 1374 (Cy. 240)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A479 (Llys-wen, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *22 Hydref 2019* |
| *Yn dod i rym* | *28 Hydref 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffyrdd yr A470 a'r A479, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A479 (Llys-wen, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 28 Hydref 2019.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 09:00 o'r gloch ar 28 Hydref 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

---

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "y gefnffordd/cefnffyrdd" ("*the trunk road(s)*") yw Cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig a Chefnffordd yr A479 Parc Glan-wysg i Lys-wen.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 22 Hydref 2019

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

# YR ATODLEN

Y darn o gefnffordd yr A470 yn Llys-wen, Powys, sy’n ymestyn o bwynt 175 o fetrau i’r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â’r A479 hyd at bwynt 600 metr i’r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â’r B4350.

Y darn o gefnffordd yr A479 sy’n ymestyn o bwynt 35 o fetrau i’r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd ystad Llys Meillion hyd at ganolbwynt ei chyffordd â’r A470.